www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

www.giantsnorthwales.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Strategaeth twristiaeth yn cyhoeddi ffyniant gwerth £2 biliwn

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Strategaeth twristiaeth yn cyhoeddi ffyniant gwerth £2 biliwn

Yn y llun, o'r chwith, mae'r Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol Dewi Davies, y Cadeirydd Neil Rowlands a'r Gweinidog Treftadaeth Alun Ffred Jones AC.

Lansiwyd strategaeth newydd i roi hwb i'r diwydiant twristiaeth yng Ngogledd Cymru – gyda'r nod o gynhyrchu'r swm aruthrol o £2 biliwn y flwyddyn.

Dadorchuddiwyd y glasbrint gan Alun Ffred Jones y Gweinidog Treftadaeth, a ddywedodd fod twristiaeth yn anhepgor i economi'r rhanbarth.

Mae'r diwydiant yn cynnal 37,000 o swyddi ac ar hyn o bryd mae'n cynhyrchu gwariant o £1.8 biliwn gan ymwelwyr bob blwyddyn – nod y strategaeth yw cynyddu'r ffigwr hwnnw i £2 biliwn.

Dyfeisiwyd y strategaeth bum mlynedd gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol yr economi ymwelwyr.

Mae'n delio â'r cyfnod hyd at 2015 ac yn cynnwys dau gynllun gweithredu tair blynedd a gaiff eu diweddaru – un ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru a'r llall ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.

Mae'r prif dargedau yn cynnwys:

gwthio'r ardal i fod yn un o bum prif gyrchfan y Deyrnas Unedig ar gyfer ymwelwyr

buddsoddi yn rhagoriaeth yr hyn sydd gan dwristiaeth i'w gynnig, yn cynnwys y sector gweithgareddau awyr agored sy'n brysur ddatblygu

syfrdanu ymwelwyr trwy ddarparu croeso cynnes a gwasanaeth da mewn amgylchoedd glân a thaclus fel eu bod yn mwynhau profiad eithriadol

gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o'n cyllideb farchnata trwy gydweithio mwy gyda'n partneriaid

Cynhaliwyd y lansiad yn Galeri Caernarfon, pan ddywedodd Mr Jones fod twristiaeth yn anadl einioes i lawer o fusnesau bach.

Ychwanegodd: "Rwy'n credu y gall wneud cyfraniad mwy fyth yn y dyfodol a'i fod yn sector cynaliadwy a fydd, o gael ei reoli'n iawn, yn parhau i ffynnu am genedlaethau i ddod.

"Mae hyn yn rhy bwysig i gael ei adael i siawns. Er mwyn iddi gyflawni ei photensial yn llwyr, rhaid i bawb sy'n ymwneud â thwristiaeth gytuno ar ei chyfeiriad a rhannu'r un agenda. Dyna yw pwrpas y ddogfen yma – tynnu sylw at bwysigrwydd twristiaeth, disgrifio gweledigaeth ar gyfer ei dyfodol, a nodi'r blaenoriaethau a'r camau strategol sydd eu hangen er mwyn i ni gyrraedd yno.

"Mae Gogledd Cymru yn gyforiog o bethau i ddenu ymwelwyr, ond mae yna dipyn o waith i'w wneud yma hefyd er mwyn gwireddu ei photensial. Mae'r strategaeth yma'n darparu glasbrint ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac rwy'n edrych ymlaen at ei gweld yn cael ei gwireddu."

Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru sydd wedi comisiynu'r strategaeth ond goruchwyliwyd y gwaith gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sector twristiaeth yng Ngogledd Cymru.

Bu llawer iawn o ymgynghori ynglŷn â'i chynnwys

gyda chwe chyfarfod sirol a dau weithdy rhanbarthol a fynychwyd gan amrywiaeth eang o rai sydd â budd mewn twristiaeth.

Ategwyd hyn gan gyfarfodydd pellach gyda grwpiau ac unigolion allweddol. Drwyddi draw, mae bron i 200 o unigolion wedi ymwneud â'r broses uchod.

Yn ôl Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol y Bartneriaeth Twristiaeth, Dewi Davies, mae'r byd wedi newid yn fawr ers i'r strategaeth flaenorol gael ei pharatoi ar droad y ganrif.

Meddai: "Ynghyd â phryderon ynglŷn â diogelwch, mae pris tanwydd wedi cynyddu ac mae hynny'n golygu bod teithio dramor yn ddrytach. Hefyd mae'r dirwasgiad presennol yn golygu bod gan deuluoedd lai o incwm i'w wario.

"Ar yr un pryd mae'r dechnoleg newydd yn golygu bod mwy a mwy o bobl yn troi at y rhyngrwyd i brynu eu gwasanaethau gwyliau ar-lein.

"Rydym hefyd yn byw mewn cymdeithas lle mae'r boblogaeth yn heneiddio, ar y cyfan, a'r her i ni yw ymateb i'r amgylchiadau yma, sy'n newid drwy'r amser.

"Mae'r gystadleuaeth yn gryf oherwydd rydym yn cystadlu yn erbyn mwy na 2,000 o gyrchfannau eraill ac mae ein strategaeth newydd yn dystiolaeth bendant ein bod yn barod am yr her honno.

"Rydym yn benderfynol o fanteisio i'r eithaf ar ein rhagoriaethau fel ein bod yn ailsefydlu'r rhanbarth ymysg pum prif gyrchfan y Deyrnas Unedig trwy wneud y gorau o'r hyn sy'n gwneud yr ardal yn un mor arbennig – y tirweddau gwych, y mynyddoedd a'r arfordir godidog."

Un fantais allweddol, yn ôl Dewi Davies, yw bod Gogledd Cymru yn agos at ryw 25 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig – gyda 16.5 miliwn o bobl yn byw o fewn taith ddwyawr mewn car.

Ar ben hynny, mae gan y rhanbarth enw da am fod yn gyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer gweithgareddau awyr agored – popeth o ddringo mynyddoedd, beicio mynydd, chwaraeon dŵr, neu ddim ond cerdded.

Mae pedair thema integredig i'r strategaeth: cyfleu cryfderau nodedig y rhanbarth, buddsoddi mewn cynnyrch rhagorol, darparu profiad eithriadol a gweithio mewn partneriaeth â'n gilydd.

Ychwanegodd Mr Davies: "Credwn y dylem fod yn gwerthu atyniadau mawr Gogledd Cymru, boed y rheiny ein cestyll, ein gerddi a'n tai ysblennydd neu Draphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte a dderbyniodd Statws Treftadaeth Byd yn ddiweddar.

"Mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi yn rhagoriaeth ein cynnyrch fel y gallwn barhau i gystadlu yn erbyn cyrchfannau eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor.

"Mae ein llewyrch yn y dyfodol yn dibynnu ar wella sgiliau felly rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda'r Colegau Addysg Bellach, y sector awyr agored, y sector parciau gwyliau a'r sector lletygarwch i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn cael eu recriwtio.

"Yn rhy aml yn y gorffennol mae pobl ifanc wedi cael eu gorfodi i fyw a gweithio'r tu allan i'r ardal a bwriad ein strategaeth ni yw gwrthdroi'r duedd yma.

"Un o brif gryfderau'r hyn sydd gan dwristiaeth i'w gynnig yng Ngogledd Cymru yw ein pobl a bydd cryfhau ein cymunedau hefyd yn helpu i gryfhau'r economi ranbarthol."

www.tpnw.org